technocamps

Inspiring | Creative | Fun
Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl

Gwifren Sip Lego: Awgrymiadau Defnyddiol

Gellir defnyddio'r pecynnau roboteg rhaglenadwy, yr Lego Mindstorm NXTs, i greu llawer o brosiectau gwahanol. Yr NXT yw ymennydd y mindstorm, lle caiff rhaglenni eu lanlwytho ac wrth eu rhedeg mae'n dweud wrth gydrannau megis moduron neu synwyryddion yr hyn i'w wneud.

Gellir ysgrifennu rhaglenni trwy ddefnyddio'r Feddalwedd NXT, amgylchedd rhaglennu llusgo a gollwng sy'n galluogi defnyddwyr i ddatblygu eu cod, ei gadw a'i lanlwytho'n rhwydd i'r pecynnau roboteg a adeiladwyd. I gael rhagor o wybodaeth am y fersiynau amrywiol sydd ar gael i'w prynu, dilynwch y ddolen ganlynol i wefan Lego:

www.lego.com/en-gb/mindstorms/?domainredir=mindstorms.lego.com

Gwifren Sip hiraf Ewrop

Mae llinell sip hiraf a chyflymaf Ewrop yn "Zip World" yn Chwarel y Penrhyn ym Methesda, Gogledd Cymru ger mynyddoedd Eryri. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg Chwarel y Penrhyn oedd y chwarel lechi fwyaf yn y byd.

Mae'r llinell sip yn eich cario 500 troedfedd uwchben y llyn ar y mynydd ar gyflymder hyd at 100 mya! Mae'n hanfodol, yn enwedig ar y cyflymderau a'r uchderau yn, y gofelir am y llinellau sip a'u cynnal er diogelwch pob defnyddiwr a staff...

i.t.wales www.itwales.com
Swansea University Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth University
Prifysgol Bangor University
University of South Wales Prifysgol De Cymru
ESF
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

Gwahanol fathau o flociau rhaglennu

Bloc	Disgrifiad
Symudiad 	Mae'r dewisiadau yn y bloc hwn yn eich galluogi i: - Ddewis â pha borth y cysylltir y moduron iddo - Cyfeiriad rydych am deithio iddo a hyd y daith - Cyfeiriad llywio - Pŵer y moduron - Moduron i frecio neu deithio ar adain y gwynt ar ôl symud
Aros 	Aros Mae'r dewisiadau yn y bloc hwn yn eich galluogi i: - Ddewis pa fath o reolydd rydych am ei ddefnyddio - Penderfynu am sawl eiliad i aros
Cylch 	Mae'r dewisiadau yn y bloc hwn yn eich galluogi i: - Ddewis pa fath o reolydd rydych am ei ddefnyddio - Penderfynu pryd i dorri'r cylch - Dewis o'r dewisiadau unigol ar gyfer pob math gwahanol o reolydd
Switsh 	Mae'r dewisiadau yn y bloc hwn yn eich galluogi i: - Ddewis pa fath o reolydd rydych am ei ddefnyddio - Penderfynu pa lwybr i'w gymryd - Dewis o'r dewisiadau unigol ar gyfer pob math gwahanol o reolydd.

Peidiwch ag anghofio anfon enghreifftiau o'ch prosiectau atom!
Gallem hyd yn oed eu dangos ar ein gwefan neu ar ein tudalen Facebook!

technocamps

www.technocamps.com

@Technocamps

Find us on Facebook